

CYNLLUN BIOAMRYWIAETH

Bwriad y polisi hwn yw sicrhau fod natur, bywyd gwyllt a'r holl fioamrywiaeth gynhenid yn cael ei ystyried ym mhopeth y mae'r Cyngor yn ymwneud ag ef. Mae'r Cyngor yn cydnabod fod gweithredu ar lefel leol yn dod a budd byd-eang trwy warchod yr amgylchedd ac adnoddau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Felly mae Cyngor Cymuned Llanberis yn ymrwymo i warchod a gwella'r amgylchedd ac i sicrhau, lle mae hynny'n bosib, nad yw ei weithgarwch yn niweidiol i'r amgylchedd

Mae'r datganiad hwn yn berthnasol i holl dir, eiddo a gweithgareddau o fewn rheolaeth Cyngor Cymuned Llanberis a bydd y Cyngor yn rheoli ei weithrediadau mewn modd a fydd yn amgylcheddol gynaliadwy.

Y FYNWENT

Mae mynwent y Cyngor yn Nantperis, yn Fynwent daclus ryfeddol, ac yn destun cryn falchder i'r Cyngor hwn. Ar hyn o bryd mae'r ymgymwrwr yn torri glaswellt rhwng misoedd Mawrth a Hydref. Prin yw'r posibiladau o gynyddu bioamrywiaeth y safle. Ni ddefnyddir chwynladdwr a dim ond unwaith yn y degawd diwethaf y bu'n rhaid difa gwahaddod oherwydd iddyn achosi cryn lanast. Hyd yma mae wedi bod yn amhosib gwahanu blodau a phlanhigion a ddefnyddir i goffhau oddi wrth y plastig a'r cynhwysion a ddefnyddiwyd i'w lapio. Da fyddai medru eu gwahanu er mwyn i'r gwastraff gwyrdd gael ei gompostio.

MYNWENT YR EGLWYS

Nid cyfrifoldeb y Cyngor hwn yw Mynwent yr Eglwys yn Nantperis, ond mae'r Cyngor o ran ewyllys da yn torri'r gwair yn flynyddol. Fydd y torriad cynta ddim tan ar ôl y 15fed o Fehefin er mwyn rhoi cyfle i flodau gwyllt a gweiriach fwrw eu hâd. O bosib bydd torriad arall yn mis Medi os bydd y glaswellt wedi tyfu'n hir yn fygythiad i ddiogelwch ymwelwyr.

MEYSYDD CHWARAE

Mae gan y Cyngor Faes Chwarae ar lan Llyn Padarn lle mae ychydig o laswellt. Er dioglewch i ddefnyddwyr y safle bydd yn rhaid sicrhau fod y glaswellt yn cael dorri'n gyson. Ni ddefnyddir chwyn laddwyr yma.

CAE CHWARAE FRON DEG a PARC BACH

Byd y glaswellt yn y Parc bychan yma'n cael dorri'n fisol o Fawrth i Hydref ond dim ond teirgwaith y torrir y gwair ar gae chwarae Fron-deg yn ystod y tymor tyfu. Fydd yma ddim chwyn laddwyr yn cael eu defnyddio.

TRI GWELY BLODAU

Mae'r tri gwely blodau, dau yn Llanberis ac un ger Adwy Ffordd Haearn yn Nantperis yn llawn o blanhigion gardd lled naturiol. Nid oes planhigion sy'n cael eu cyfrif yn rhai ymwithiol

sy'n lledaenu ac yn fygythiad i gynefinoedd naturiol wedi eu plannu yma. Bwriedir sicrhau y bydd hynny yn parhau i'r dyfodol
Ni fydd chwynladdwr megis Glyphosate yn cael ei ddefnyddio.

CYDWEITHIO

Mae'r Cyngor wedi cydweithio gyda awdurdodau ac asiantaethau lleol, a bwriedir parhau i wneud hynny. Yn y gorffennol mae'r Cyngor wedi ymgynghori gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Gwynedd, Dŵr Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol mewn perthynas a nifer o gynefinoedd. Lle bydd angen bydd y Cyngor hwn yn mynnu tegwch i'r amgylchedd mewn perthynas a bioamrywiaeth.

GWYRDDNI

Mae'r Cyngor yn croesawu sefydlu Grwp Gwyrddni yn Nyffyrn Peris, ac yn dymuno'n dda iddo yn ei weithgarwch i ymateb i'r argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth.

CYFEILLION CAE'R DDÔL

Mae'r Cyngor hwn wedi cefnogi rhoi cernogaeth ariannol sawl gwaith i Gyfeillion Cae'r Ddôl, y grŵp gwirfoddol sy'n gofalu am y gweirgloddiau ar lan Llyn Padarn. Cynefin prin a rhyfeddol i flodau a phlanhigion amrywiol a llawer ohonynt yn brin.

Dyddiad:
10fed o Fai, 2023

Cadeirydd: Llinos Haf Pritchard

Clerc: Dei Tomos